**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol o'r teitl 'Paratoi ar gyfer Brexit; Adroddiad ar barodrwydd y sector bwyd a diod yng Nghymru'.**

---

## Cefndir

Brexit yw'r risg a'r her fwyaf i'r sector bwyd a diod ers i'r Deyrnas Unedig ymuno â'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Rydym wedi dod i arfer â chadwyni cyflenwad â lefelau uchel o integreiddio ar draws y Farchnad Sengl, masnachu nwyddau heb dariff na chwota, llafur a chyfalaf yn llifo'n rhydd a logisteg mewn union bryd. Mae ein sector wedi tyfu o fewn y cyd-destun hwn ac erbyn hyn mae'n wynebu cynnwrf helaeth a wneir yn llawer gwaeth gan ansicrwydd ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd yn ystod yr wythnosau i ddod.

Droeon rydym wedi'i wneud yn glir i Lywodraeth Ei Mawrhydi fod sefyllfa dim bargen yn annerbyniol. Byddai'r canlyniadau yn y tymor byr yn cael effaith economaidd drychinebus yn enwedig ar gyfer allforion pe bai allforwyr yn gorfod codi tariff ar lefel Sefydliad Masnach y Byd a rhwystrau masnach newydd yn eu marchnadoedd presennol. Gallwn ddamcaniaethu yn unig o ran yr effaith yn yr hirdymor ond pwyntia pob dadansoddiad at heriau sylfaenol. Heb os byddai ein sector yn addasu ond awgryma'r dystiolaeth y profir effeithiau eang a dwfn. Mae sefyllfa Llywodraeth Cymru yn parhau i fod bod yn rhaid i'r Deyrnas Unedig gadw mynediad cyflawn a rhydd i'r Farchnad Sengl. Mae angen adeiladu newid ar ein llwyddiant, nid dinistrio ein sylfeini.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar eu hadroddiad. Rwyf wedi gosod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod fy Adran yn cyflawni rhaglen sylweddol o waith i baratoi ar gyfer Brexit ac i fynd i'r afael â'r risgiau niferus. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd - Cymru a Llywodraeth Cymru oll yn paratoi addasiadau i'r fframwaith rheoleiddio i sicrhau ei fod yn gweithredu o hyd mewn sefyllfa 'dim bargen' er mwyn diogelu defnyddwyr a chynnal busnesau. Rydym wedi cymryd camau i hysbysu busnesau am y materion y mae'n rhaid iddynt eu hystyried, sut i wirio eu parodrwydd ar gyfer sefyllfa 'dim bargen' gan roi cymorth paratoi mewn lle. Beth bynnag ein gwahaniaethau barn cryf gyda Llywodraeth Ei Mawrhydi rydym yn gweithio'n agos gyda hwy a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i sicrhau ein bod yn meddu ar gynllun at raid ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan o ran cynnal cyflenwadau bwyd i'r cyhoedd hyd yn oed ar gyfer y senario gwaethaf.

Yn y sefyllfa bresennol byddai'n hawdd colli golwg ar ein huchelgeisiau hirdymor a faint o lwyddiant y mae'r sector bwyd wedi'i fwynhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i adeiladu ar lwyddiant. Gall bwyd, fel sector sylfaenol o'n heconomi wneud mwy ac mae'n gwneud mwy i gyfrannu'n helaeth at lesiant Cymru. Byddaf yn parhau â'n cymorth cryf dros y sector

ac, yn benodol yn ystod y cyfnod presennol, byddaf yn anfon neges gryf i'n marchnadoedd allforio ein bod yn sicr ar agor i fusnes o hyd.

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod:

Gwaith Llywodraeth Cymru ar strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer bwyd a diod yn rhoi ystyriaeth i'r ymchwil a gynhelir ar hyn o bryd i feincnodi'r sector. Ar ben hynny, dylai unrhyw strategaeth newydd ar gyfer y sector ar ôl Brexit osod nodau clir ac uchelgeisiol, gan gynnwys defnyddio targedau priodol, yn nhermau cynyddu mynediad Cymru i farchnadoedd "Gweddill y Byd" newydd ar gyfer allforio cynhyrchion bwyd a diod o Gymru.

**Ymateb**: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (*FDWIB*) yn cyd-ddatblygu cynllun newydd i gefnogi'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru ac i adeiladu ar y llwyddiant hyd yma. Rydym yn creu gweledigaeth a rennir, a gweithredoedd ategol, i rymuso busnesau yng Nghymru i lwyddo. Rydym yn datblygu cynigion fel rhan o'r cynllun i sicrhau bod y sector bwyd yn chwarae rhan gyflawn mewn gwireddu ein nodau 'llesiant' a'n huchelgeisiau Ffyniant i Bawb.

Cynhaliwyd gweithred ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid yn ystod yr haf a'r hydref diwethaf gan adeiladu darlun manwl o faterion a sut gallwn atgyfnerthu a dyfnhau'r cymorth rydym wedi llwyddo i'w roi i'r sector i symud ei ddatblygiad yn y dyfodol i'r cyfnod nesaf. Law yn llaw gyda hyn rydym wedi archwilio sut gall y sector gyfrannu at lesiant a chynaliadwyedd Cymru a'i phobl yn y dyfodol. Mae'r gwaith eisoes wedi adnabod themâu eang a thargedau posib. Dro ar ôl tro mae rhanddeiliaid wedi pwyntio at ba mor bwysig ydyw i dyfu ein busnesau, hyrwyddo Cymru fel cenedl bwyd er budd ein pobl a'n cymdeithas ac uwchben popeth yw cyflawni'r pethau hyn mewn ffordd gydgefnogol, integredig. Ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol hyd yma ar wefan Bwyd a Diod Cymru <https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/future-strategy-planning-food-and-drink-wales>. Cynigir cynnal ymgynghoriad ffurfiol yn hwyrach yn 2019 gan gynnwys dangosyddion a thargedau arfaethedig a gosodir cynllun newydd mewn lle erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae ein gwybodaeth wedi adnabod rhwystrau sy'n annog busnesau i beidio ag allforio, megis biwrocratiaeth, deddfwriaeth a gofynion tollau, yr her o ddod o hyd i gludwyr, a diffyg gwybodaeth am y farchnad. Weithiau mae busnesau'n gofidio am effeithlonrwydd cost allforio ac maent yn dymuno bod yn hyderus bod gwerthu tramor yn broffidiol ac yn werth chweil. Trwy'r cynllun gweithredu newydd byddwn yn datblygu ein cefnogaeth ar gyfer busnesau sy'n allforio neu sy'n dymuno dechrau allforio ac sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. Byddwn yn gwneud hyn tra'n parhau i lobio Llywodraeth Ei Mawrhydi am y canlyniad mwyaf buddiol i Gymru yn ystod y trafodaethau masnach gyda'r Undeb Ewropeaidd a'r trydydd gwledydd. Byddwn yn cyflenwi rhaglen strwythuredig o gymorth busnes a gyfeirir tuag at gefnogi busnesau sy'n dymuno gwerthu yn y marchnadoedd rhyngwladol sy'n cynnig y potensial mwyaf am elw. Byddwn hefyd yn codi proffil Cymru trwy ddigwyddiadau masnach – yn enwedig Blas Cymru, ein prif ddigwyddiad gwerthu a gynhelir yn y Celtic Manor ar 20 i 21 Mawrth.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw gostau ychwanegol, ac mae'r gweithredoedd a ddisgrifiwyd eisoes yn cael eu cefnogi gan gyllidebau sydd ar gael.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod:

Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar greu cynllun ar gyfer y Deyrnas Unedig ehangach ar ôl Brexit, gan gynnwys a ydyw wedi codi pryderon ai peidio ynghylch y swm cyfyngedig o amser ar gael i ymgyngoreion gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

**Ymateb: Derbyn**

Erbyn hyn mae gan Gymru 15 o gynhyrchion sy'n meddu ar Statws Enw Bwyd a Warchodir gan yr Undeb Ewropeaidd ac mae dau brosiect arall dan ystyriaeth o hyd gan y Comisiwn Ewropeaidd (Eirin Dinbych Dyffryn Clwyd a Chig Oen Mynyddoedd Cambria). Rydym wedi'i wneud yn glir i Lywodraeth Ei Mawrhydi bod yn rhaid i drafodaethau tynnu'n ôl arwain at Wybodaeth Ddaearyddol bresennol yn cadw ei statws yn yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit. Rydym yn weddol hyderus y bydd hyn yn digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill wedi ymgysylltu'n weithredol â Defra i ddatblygu cynllun newydd Dangosyddion Daearyddol y Deyrnas Unedig ar gyfer y cyfnod ar ôl Brexit. Rydym wedi cydweithredu i lunio cynigion i sefydlu cynllun Gwybodaeth Ddaearyddol y Deyrnas Unedig cyffredin. Byddai'r cynllun newydd hwn yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer trefniant dwyochrog posib gyda'r Undeb Ewropeaidd i ennill statws enw bwyd a warchodir a statws daearyddol a warchodir ym marchnadoedd Ewrop ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi cytuno ar nifer o'r prif bwyntiau ond mae angen terfynu manylion pwysig o hyd.

I gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun newydd mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ymgynghoriad ar draws y Deyrnas Unedig gyfan a arweiniwyd gan Defra. Nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch yr amser a roddwyd i ymgyngoreion ymateb ac ni chododd unrhyw un o'n busnesau ofidion ynghylch diffyg amser nac eu bod yn anymwybodol o'r ymgynghoriad. Roeddem yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r ymgynghoriad a defnyddiwyd ein sianeli cyfathrebu a'n perthnasoedd agos gyda chynhyrchwyr Gwybodaeth Ddaearyddol i'w hysbysu am yr ymgynghoriad er mwyn iddynt allu ymateb pe dymunent.

Yn ogystal â datblygu cynllun ôl-Brexit ar gyfer y Deyrnas Unedig, rydym hefyd wedi trafod gwelliannau rheoleiddio (gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill) i gryfhau trefniadau gorfodaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnal safonau Gwybodaeth Ddaearyddol. Mae hyn wedi arwain at Reoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd) 2018 sy'n cynorthwyo swyddogion safonau masnach i weithredu mewn achosion o dor-gyfraith ar gyfer y cynlluniau Undeb Ewropeaidd presennol ac unrhyw gynllun dilynol yn y Deyrnas Unedig. Mae gorfodaeth gryf yn niddordebau defnyddwyr, cynhyrchwyr a manwerthwyr.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff y costau ynghlwm â pharatoi'r cynigion ar gyfer Cynllun Gwybodaeth Ddaearyddol newydd ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r rheoliadau newydd eu hymgorffori gan gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell bod:

Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r Adroddiad, yn amlinellu manylion am y gwaith a gyflawnir i gefnogi busnesau i liniaru effeithiau Brexit "dim bargen" ar ddiogelu a pharhau cyflenwadau bwyd yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Busnes Cymru wedi cyhoeddi Porth Brexit ar-lein i bob busnes ei ddefnyddio. Mae'r porth a'r teclyn hunanasesu'n cwmpasu meysydd busnes allweddol i fesur parodrwydd busnesau am Brexit. Ar gwblhau hunanasesiad darperir asesiad i fusnesau sy'n adnabod materion a risgiau. Mae cymorth ychwanegol pwrpasol ar gael ar gyfer busnesau bwyd trwy ystod gynhwysfawr o gymorth technegol a chymorth busnes Llywodraeth Cymru a gyflenwir trwy gyfuniad o Arloesi Bwyd Cymru a Menter a Busnes.

Yn ogystal, ar lefel ehangach, mae Llywodraeth Cymru wedi anfon Nodiadau Technegol Llywodraeth Ei Mawrhydi a Phecyn Partneriaeth CThEM ar gyfer sefyllfa 'dim bargen' ymlaen i fusnesau bwyd. Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi atgyfnerthu'r ymdrechion hyn trwy gynnal digwyddiadau penodol ar Brexit i fusnesau yng Ngogledd Cymru ac yn Ne Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o Grŵp Cyswllt Argyfwng y Gadwyn Fwyd (*FCELG*) a arweinir gan Defra, sy'n ymgynnull cyrff masnach mawrion y sector bwyd a'r Gweinyddiaethau Datganoledig fel fforwm trafod ar gyfer cynllunio at Brexit. Mae *FCELG* hefyd yn sianel gyfathrebu ar lefel y Deyrnas Unedig i gyfeirio gwybodaeth am baratoadau Brexit i'r sector i fusnesau gweithgynhyrchu, busnesau manwerthu a busnesau cyfanwerthu. Mae cyrff masnachu wedi adrodd bod eu haelodau, sy'n cynnwys y manwerthwyr mawrion, yn hyderus y gallant gynnal cyflenwadau bwyd i boblogaeth y Deyrnas Unedig yn achos sefyllfa 'dim bargen' Brexit, er efallai y bydd dewis o rai cynhyrchion ffres yn fwy cyfyngedig nag arfer am gyfnod.

Mae porthladdoedd yn Lloegr, yn enwedig Dofr a Thwnnel y Sianel yn allweddol i gyflenwad bwyd Cymru, yn enwedig cynhyrchion ffres. Mae cyflenwadau trwy'r porthladdoedd hyn yn wynebu tarfu sylweddol o ganlyniad i oedi ym mhorthladdoedd yr Undeb Ewropeaidd a achosir gan wiriadau newydd ar gyfer mewnforion o'r Deyrnas Unedig fel trydedd wlad. Llywodraeth Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff tarfu ym mhorthladdoedd yn Lloegr ei gadw i leiafswm felly rydym wedi'i wneud yn glir i Lywodraeth Ei Mawrhydi pa mor bwysig ydynt i Gymru a byddwn yn parhau i wneud hyn.

Mae porthladdoedd Cymru o bwysigrwydd eilaidd i gyflenwadau bwyd Cymru ond rydym yn gwneud popeth yn ein pŵer i sicrhau y caiff unrhyw darfu ei gadw i

leiafswm. Rydym yn ystyried sut i reoli unrhyw darfu ar draffig yn ardal Caergybi a'r cylch a allai ddigwydd o ganlyniad i oedi wrth y tollau yn Nulyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r porthladd, gweithredwyr y fferïau, y gwasanaethau brys, Cyngor Sir Ynys Môn a'r fforwm gwytnwch lleol i ddatblygu trefniadau a gyhoeddir cyn hir. Nid ydym yn disgwyl profi problemau yn Noc Penfro nac yn Abergwaun am fod ganddynt y capasiti i gadw cerbydau sy'n profi oedi. Ar gyfer pob un o'r porthladdoedd, mae'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r dadansoddi wedi'u cydbwyso'n gynnil; maent a'r paratoadau yn destun adolygiadau gyda'r porthladdoedd, Llu'r Ffiniau, yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau brys er mwyn ymateb yn gyflym i newidiadau.

Mae cyflenwadau bwyd yn dibynnu ar logisteg cludo nwyddau ar loriau yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn bryderus o hyd am gynllun cais am drwydded Llywodraeth Ei Mawrhydi ar gyfer cludwyr ar loriau ac mae'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Ffyrdd Llywodraeth Ei Mawrhydi, Jesse Norman AS, yn pwysleisio'r angen i sicrhau nad yw cludwyr ar loriau na busnesau yng Nghymru'n cael eu heffeithio'n niweidiol. Ar wahân i hyn mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cynnig gall gweithredwyr y Deyrnas Unedig gludo nwyddau i'r Undeb Ewropeaidd am gyfnod dros dro (naw mis) ar yr amod bod y Deyrnas Unedig yn rhoi hawliau cyfartal i weithredwyr cludo nwyddau ar loriau o'r Undeb Ewropeaidd. Tra bod derbyniad Llywodraeth Ei Mawrhydi'n cynnig rhywfaint o gysur, mae'n ddatrysiad tymor byr yn unig.

O ran y boblogaeth gyffredinol a'r ystod amrywiol o sefydliadau busnes a rhai nad ydynt yn fusnesau sy'n bodoli ar draws Cymru ac sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd, rydym wedi creu 'Paratoi Cymru' i dawelu meddwl ac i roi cyngor i unrhyw un sy'n pryderu am effeithiau posib sefyllfa dim bargen Brexit. Mae 'Paratoi Cymru' yn ffynhonnell wybodaeth unigol gynhwysfawr am ein gweithredoedd. Mae'n rhoi arweiniad ar y camau y mae angen eu cymryd i baratoi ar gyfer y canlyniad hwn ac mae'n cyfeirio i gyngor perthnasol gan gyrff eraill, gan gynnwys Llywodraeth Ei Mawrhydi, ar sut i baratoi.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ac mae'r gweithredoedd a ddisgrifiwyd eisoes yn cael eu cefnogi gan gyllidebau sydd ar gael.